

Paintings selected from the annual exhibitions
of The Royal Cambrian Academy of Art
held in Wales 1882-1982



Peintiadau wedi eu dethol o
arddangosfeydd blynyddol
Academi Frenhinol Gymreig y Celfyddydau
a gynhaliwyd yng Nghymru 1882-1982

Paintings selected from the annual exhibitions
of The Royal Cambrian Academy of Art
held in Wales 1882-1982



Peintïadau wedi eu dethol o
arddangosfeydd blynyddol
Academi Frenhinol Gymreig y Celfyddydau
a gynhaliwyd yng Nghymru 1882-1982

An exhibition organised by The Royal
Cambrian Academy of Art, in association
with the Williamson Art Gallery and
Museum, Birkenhead and with the financial
support of the Welsh Arts Council

Arddangosfa a drefnwyd gan Academi
Frenhinol Gymreig y Celfyddydau mewn
cydweithrediad ag Oriel Gelf ac Amgueddfa
Williamson, Penbedw a chyda chymorth
ariannol Cyngor Celfyddydau Cymru

Print Design
Typesetting
Printers
Welsh Translation
Research

Penknife Ltd
Characters
Mid Wales Litho Ltd
Siân Edwards
David Hillhouse

© Royal Cambrian Academy of Art and
contributors 1982

ISBN 0 9507998 0 7

Published by the Royal Cambrian Academy of
Art, with the financial support of the Welsh
Arts Council

Dylunio'r Argraffwaith Penknife Cyf
Cysodi Characters
Argraffwyr Mid Wales Litho Cyf
Cyfieithiad Gymraeg Siân Edwards
Ymchwil David Hillhouse

© Academi Frenhinol Gymreig y Celfyddydau
a'r cyfranwyr 1982

ISBN 0 9507998 0 7

Cyhoeddwyd gan Academi Frenhinol Gymreig
y Celfyddydau gyda chymorth ariannol Cyngor
Celfyddydau Cymru

Acknowledgements

We wish to thank
The Welsh Arts Council
Wirral Borough Council, Department of
Leisure Services
The Mostyn Art Gallery, Llandudno and
The Williamson Art Gallery and Museum,
Birkenhead for their sponsorship and
cooperation, without which this exhibition
could not have been presented.

Our particular thanks go to Clive Adams, David
Hillhouse, Andrew Knight and Leonard
Mercer for their professional work on our
behalf and their unfailing patience.
Our sincere gratitude goes to H M the Queen,
the individuals and bodies who have so kindly
loaned works from their collections for so
protracted a period.

Cydnabyddiaeth

Carem ddiolch i
Gyngor Celfyddydau Cymru,
Cyngor Bwrdeistref Wirral, Adran
Gwasanaethau Hamdden
Oriol Mostyn, Llandudno ac
Oriol Gelf ac Amgueddfa Williamson, Penbedw
and eu nawdd a'u cydweithrediad; hebddynt
hwy ni ellid fod wedi cyflwyno'r arddangosfa
hon.

Carem ddiolch yn arbennig i Clive Adams,
David Hillhouse, Andrew Knight a Leonard
Mercer am eu gwaith proffesiynol ar ein rhan,
a'u hamynedd diflino. Mawr yw ein dyled i E.
M y Frenhines, unigolion a sefydliadau a fu
mor garedig â benthyca gweithiau o'u
casgliadau am gyfnod mor faith.

Foreword

Using the more obscure dictionary definitions
of the words comprising its title The Royal
Cambrian Academy of Art could be described
as a 'fee paying school of above-normal
standing formed in the first million years of the
Palaeozoic era, concerning itself with
imaginative skills as applied to representations
of the natural world', which is not so far from
the truth as it may seem. The Academy is self-
supporting, has a Royal Charter, has been in
existence for a considerable time, is involved in
art education and many of its members paint
representations of what they see.

So positive a statement is contrary to the
notion that academies are moribund
institutions with negative ideas. That they
don't seem to innovate is because, being
concerned with the durable, they don't parade
the mannerisms of the moment and are,
instead, motivated by broad-ranging toleration,
whereas avant-garde artists trust that extreme
novelty will bring recognition.

It doesn't much matter if a work never had

Rhagair

Gan ddefnyddio diffiniadau geiriadurol mwyaf
tywyll y geiriau sydd yn ffurfio ei henw, gellid
disgrifio Academi Frenhinol Gymreig y
Celfyddydau fel 'ysgol y mae'n rhaid talu i fynd
iddi, â statws uwch na'r cyffredin, a ffurfiwyd
yn ystod miliwn blynedd cyntaf yr Oes
Balaeosöig sydd yn ymwneud â medrau'r
dychymyg yn y modd y'u defnyddir i
ddarlunio'r byd naturiol', disgrifiad nad yw
mor bell o'r gwirionedd ag yr ymddengys. Y
mae'r Academi yn hunan-gynhaliol, y mae
ganddi Siarter Frenhinol, y mae wedi bodoli
ers cryn amser, y mae a wnelo hi ag addysg
gelf, ac y mae llawer o'i haelodau'n peintio
darluniau o'r hyn a welant.

Y mae datganiad mor gadarnhaol â hynny
yn gwrthddweud y syniad fod academiâu yn
sefydliadau marwaidd, negyddol eu syniadau.
Nid ydynt fel pe baent yn esgor ar syniadau
newydd oblegid y parhaus yw eu prif
ddiddordeb; ni fyddant yn arddangos
dullweddau ffasiynol y foment, yn hytrach, fe'u
hysgogir gan oddefgarwch ehangfryd, lle bydd

fashionable notice and it becomes irrelevant to
all but the historian as to whether it was
painted ahead of or behind its time. What
matters is intrinsic quality. But can something
be good if it is not original in the sense of being
first and can there be intrinsic value in the
academic? The habitual response of 'No' is one
conditioned by the glossy media but any
reaction that is not based on direct experience
of the work isn't genuine. 'Academic' painters
can surprise by subtle handling of familiar
themes or by showing unusual initiative in
choice of subject; their tonal sense can be sure,
their paint sense fluent. Academy members are
individuals; there are traditionalists and there
are mavericks, and all are free to exhibit as they
wish.

When artists are occupied with
representation they are saying 'We are
delighted in seeing this - share our pleasure'.
Originality, in this approach isn't obvious; it
suffuses the work with qualities that are extra
to the artist's deliberate intentions, resulting in
a contemplative reticence which can be found
throughout the history of British Art.

This introduction was written when the

artistiaid avant-garde ar y llaw arall yn ffyddiog
mai newydd-deb eithafol a ddaw â
chydabyddiaeth iddynt.

Nid yw hi fawr o bwys na chafodd gwaith
neilltuol sylw ffasiynol erioed, ac amherthnasol
i bawb ond yr hanesydd celf yw'r cwestiwn a
beintiwyd darlun cyn ei amser neu ar ôl hynny.
Yr hyn sydd yn bwysig yw ansawdd gynhenid
y gwaith. Ond a fedr rhywbeth fod yn dda os
nad ydyw'n wreiddiol, yn yr ystyr mai ef yw'r
cyntaf o'i fath, ac a all fod yna werth cynhenid
yn yr academaidd? Fe'n cyflyrwyd gan y
cylchgronau sgileiniog i ateb 'Na' fel arfer, ond
nid yw ymateb na seiliwyd ar brofiad
uniongyrchol o'r gwaith ei hun yn un geirwir.
Gall peintwyr 'academaidd' ein synnu gyda'u
hymdriniaeth gynnil o themâu cyfarwydd, neu
drwy arddangos gwreiddioldeb anghyffredin
yn eu dewis o destun; gallant fod yn arlunwyr
diogel eu synnwyr tonyddol ac yn rhugl eu
synnwyr paent. Unigolion yw aelodau'r
Academi: ceir peintwyr traddodiadol ochr yn
ochr â rhai amuniongred, ac y maent i gyd yn
rhydd i arddangos fel y mynnant.

Pan fydd arlunwyr wrthi'n darlunio
rhywbeth, y maent yn dweud 'Yr ydym wrth

organisers had no sure idea of what the exhibition would present, when many of the works were known only as catalogue entries. It is The Royal Cambrian Academy of Art's autobiographical self-discovery of its first hundred years.

JACK SHORE,
President,
Royal Cambrian Academy of Art
Plas Mawr,
Conwy, Gwynedd.

Clarence Whaite
Photograph RCA

Richard Gay Somerset one of the Academy's
first members 1848 – 1928
Photograph RCA




ein bodd i weld hyn – rhannwch ein pleser'.
Nid yw gwreiddioldeb yr agwedd hon yn
amlwg; y mae'n trwytho'r gwaith ag ansoddau
sydd yn ychwanegol at amcanion bwriadol yr
arlunydd, gan greu'r tawedogrwydd myfyriol
hwnnw sydd mor amlwg drwy gydol hanes
celfyddyd yng ngwledydd Prydain.

Ysgrifennwyd y rhagarweiniad hwn cyn
bod y trefnwyr yn gwybod yn bendant beth y
bydd yr arddangosfa yn ei gyflwyno, pan nad
oedd y gweithiau eu hunain yn ddim mwy na
theitlau mewn rhestr gatalog. Hunan-
ddarganfyddiad hunangofiannol Academi
Frenhinol Gymreig y Celfyddydau o'i chan
mlynedd cyntaf yw'r arddangosfa hon.

JACK SHORE,
Llywydd,
Academi Frenhinol Gymreig y Celfyddydau,
Plas Mawr, Gwynedd.

Clarence Whaite
Ffotograff AFG

Richard Gay Somerset un o aelodau cynta'r
Academi 1848 – 1928
Ffotograff AFG




Plas Mawr c.1897
Photograph RCA

Plas Mawr c.1897
Ffotograff AFG

Opening Day Plas Mawr c.1897
Photograph RCA.

Diwrnod Agor Plas Mawr c.1897
Ffotograff AFG



The Foundation and Early Years of the Royal Cambrian Academy of Art

In the later eighteenth and early nineteenth centuries political turmoil in Europe diminished the popularity of the Grand Tour among the leisured gentry and indirectly stimulated the British landscape artists into providing alternatives to the continental souvenirs they were accustomed to painting.

Richard Wilson, who spent part of his childhood in the Vale of Clwyd, adapted his Italianate style to the interpretation of British landscapes, saying that 'everything the landscape painter could want was to be found in North Wales.' Alexander Cozens, Anthony Davis, Gainsborough, Rowlandson and Crome went there and James Ward, having gone to study prize animals, returned to London with 'five hundred and eighty one sketches from nature . . . of every picturesque and uncommon object he encountered'¹. Artists travelled by coaster, horse and on foot, often in great discomfort and in all weathers. Their Summer

itineraries had to be planned beforehand with an eye to economy and pre-arranged meetings with patrons in the hope of sales or drawing lessons.

Although 'by 1819 many of the most dangerous portions of the road through Wales were safe'² it was the coming of rail travel which enabled artists to modify the seasonal working pattern. They could stay longer, carry materials and paintings more easily and even settle to live where they sketched. David Cox, who travelled 'up and down the country for his landscape subjects, accommodating his style to the market and labouring endlessly as a drawing master'³ began his annual summer visits to Betws-y-Coed in 1844. When the Chester to Holyhead railway opened in 1848 it became easier for his imitators to seek his influence and learn that 'the principle art of Landscape Painting consists in conveying to the mind the most forcible effects which can be produced from the various classes of scenery. . . . Thus a Cottage or a Village scene requires a soft and simple admixture of tones calculated to produce pleasure without astonishment (and) on the contrary the

Sefydli Academi Frenhinol Gymreig y Celfyddydau, a'i Blynyddoedd Cynnar

Oherwydd y terfysg gwleidyddol yn Ewrop yn niwedd y ddeunawfed ganrif a dechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg edwinodd poblogrwydd y Daith Fawr ymhlith y bonedd segur ac, yn anuniongyrchol, ysgogwyd arlunwyr tirlun gwledydd Prydain i gynnig mathau eraill o luniau yn lle'r cofroddion cyfandirol yr arferent eu peintio.

Addasodd Richard Wilson, a dreuliodd ran o'i blentyndod yn Nyffryn Clwyd, ei arddull Eidalaidd i ddehongli tirlun gwledydd Prydain, gan ddweud fod 'popeth y gallai'r peintiwr tirluniau ei ddymuno i'w gael yng Ngogledd Cymru.' Aeth Alexander Cozens, Anthony Davis, Gainsborough, Rowlandson a Crome yno, a dychwelodd James Ward, a aethai yno i astudio anifeiliaid arobryn, i Lundain â 'phum cant wyth deg ac un o frasluniau o natur' 'o bob gwrthrych darluniaidd ac anghyffredin y

daethai ar eu traws.'¹ Teithiai arlunwyr yn y llongau a hwyliai gyda'r glannau, ar gefn ceffylau ac ar droed, yn fynych mewn anghysur mawr, ac ym mhob tywydd. Rhaid oedd iddynt drefnu eu teithiau haf yn ofalus rhag gwario gormod o arian, gan drefnu o flaen llaw i gyfarfod â gwahanol noddwyr yn y gobaith o werthu gweithiau neu roi gwersi lluniadu.

Er bod 'llawer o'r rhannau mwyaf peryglus o'r ffordd drwy Gymru yn ddiogel erbyn 1819'² dyfodiad y rheilffyrdd a'i gwnaeth hi'n bosibl i arlunwyr newid rhywfaint ar y patrwm gwaith tymhorol. Gallent aros am gyfnod hwy, cario defnyddiau a pheintiau yn haws a hyd yn oed ymgartrefu yn yr ardaloedd yr aent iddynt i fraslunio. Dechreuodd David Cox, a deithiodd 'ar hyd a lled y wlad am destunau i'w dirluniau, gan addasu ei arddull i weddu i'r farchnad a llafurio'n ddiddiwedd fel athro lluniadu'³, ymweld bob haf â Betws y Coed ym 1844. Pan agorodd rheilffordd Caer i Gaergybi ym 1848 aeth yn haws i ddynwaredwyr Cox i deithio yno i geisio ei ddylanwad a chael dysgu mai 'prif gelfyddyd Peintio Tirluniol yw cyflew i'r meddwl yr effeithiau mwyaf grymus y gellir eu

structures of greatness and antiquity should be marked by a character of awful sublimity'.⁴ The patron loomed large and awesome in the prospect.

Those who came into North Wales from the northern towns often belonged to the Manchester and Liverpool 'schools' and together with native Welsh painters they formed a unique group of Victorian artists in and around the Conwy Valley. On Saturday November 21, 1881, seven of them met at the Llandudno Junction Hotel (close by the railway) to determine the aims of a body they proposed to constitute as The Cambrian Academy of Art. They were John Johnson (fl. 1876 – 95) of Trefriw, Charles Potter (fl. 1867 – 1907) of Talybont, three of the Manchester 'school' resident in the valley, William Meredith (b. 1851), Joshua Anderson Hague (1850 – 1916) and George Hayes (fl. 1855 – 93), their elected chairman Edwin Arthur Norbury (1849 – 1918) and secretary William Laurence Banks (1822 – 93) of Conwy. Norbury was a native of Liverpool, resident in Rhyl.

By November 26 a prospectus had been written for circulation to artists with Welsh

cynhyrchu o wahanol fathau o olygfeydd. . . Felly bydd golygfa o Fwthyn neu Bentref yn gofyn am gymysgedd dyner a syml o wawriau er mwyn cynhyrchu pleser heb syfrdanu (ac) ar y llaw arall, dylid nodweddu strwythurau mawreddog a hynafol â chymeriad ârchel sy'n ennyn parchedig ofn'.⁴

Yn fynych, aelodau o 'ysgolion' Manceinion a Lerpwl oedd yr arlunwyr a fentra i Ogledd Cymru o drefi gogledd Lloegr, a ffurfiar'r rheini, ynghyd â nifer o beintwyr brodorol, gasgliad unigryw o artistiaid Fictoraidd yng nghylch Dyffryn Conwy. Ddydd Sadwrn Tachwedd 21, 1881, cyfarfu saith ohonynt yng Ngwesty Cyffordd Llandudno (nid nepell o'r rheilffordd) i bennu amcanion y corff y bwriadent ei sefydlu, sef Academi Gelfyddydau Gymreig. Y rhain oedd John Johnson (fl. 1876 – 95), Trefriw, Charles Potter (fl. 1867 – 1907), Talybont, tri aelod o 'ysgol' Manceinion a oedd yn byw yn y dyffryn, sef William Meredith (g. 1851), Joshua Anderson Hague (1850 – 1916) a George Hayes (fl. 1855 – 93), y cadeirydd a etholwyd ganddynt, Edwin Arthur Norbury (1849 – 1918) a'r ysgrifennydd William Laurence Banks

connections and from the resulting applications a list of thirty-one members and eight associates was completed early in January 1882.* A woman applicant was discouragingly told that 'the committee haven't yet come to any determination as to the admission of ladies'⁵.

Official recognition came quickly in a letter from the Secretary of State which Norbury read to an April committee meeting conveying 'Her Most Gracious Majesty's Command that the Cambrian Academy of Art should be styled The Royal Cambrian Academy of Art.'

The inaugural exhibition of a hundred and twenty-nine works by thirty-five artists opened on June 20, 1882, at The Temporary Gallery, Mostyn Street, Llandudno and the catalogue foreword expressed the hope that the Academy would 'give an impetus to the further development of Art in connection with the Principality'.⁶ By then four eminent artists, Leighton, Stacy Marks, Millais and Alma-Tadema had accepted honorary membership.

*see appendix for list of members

(1822 – 93), Conwy. Brodor o Lerpwl a drigai yn y Rhyl oedd Norbury.

Erbyn Tachwedd 26, yr oeddynt wedi llunio prospectws a ddanfonwyd at artistiaid â chysylltiadau â Chymru, ac o blith y ceisiadau a dderbyniwyd o ganlyniad i hynny, cwblhawyd rhestr o unarddeg ar hugain o aelodau ac wyth aelod cysylltiol yn gynnwys ym mis Ionawr 1882.* Yr ateb swta a gafodd menyw a ymgeisiodd oedd 'nad yw'r pwyllgor hyd yma wedi dod i unrhyw benderfyniad parthed caniatáu mynediad i wragedd'.⁵

Daeth cydnabyddiaeth swyddogol yn fuan wedi hynny mewn llythyr oddi wrth yr Ysgrifennydd Gwladol a ddarllenodd Norbury i'r pwyllgor mewn cyfarfod ym mis Ebrill, yn cyflew 'Gorchymyn Ei Mwyaf Graslawn Fawrhydi y dylid galw Academi Gymreig y Celfyddydau yn Academi Frenhinol Gymreig y Celfyddydau.'

Agorodd yr arddangosfa gyntaf o gant a naw ar hugain o weithiau gan bymtheg ar hugain o arlunwyr ar Fehefin 20, 1882 yn yr Oriel Dros-Dro, Stryd Mostyn, Llandudno a mynegai'r rhagair a'r catalog y gobaith y byddai'r Academi 'yn hybu datblygiad pellach

Of the second exhibition, held at the Arcade Gallery, Rhyl in 1883 academy member T.H. Thomas wrote 'to what a great extent the representation of Cambrian scenes is carried, greatly by the encouragement given by the establishment of an Academy, a glance at the catalogue . . . will show. . . Out of a total of 293 works from all sources no less than 91 scenes in Wales were exhibited by members and associates, being about two pictures for each, exclusive of studies to which no locality was assigned, many of which were places in Wales. This simple fact shows no small earnestness to characterise the Cambrian sympathies of the artists'.⁷

It was evident that any further aspiration to represent the whole of Welsh art would need to take the Academy beyond the confines of the mountain valleys of the north and also establish a permanent headquarters. The council, naturally, looked towards the capital city and a meeting at Cardiff Town Hall on June 26, 1883, set up The Cardiff Scheme Committee which organised The Fine Art Exhibition of 1884. As Thomas wrote, with what eventually proved to be unfounded optimism, 'On the settlement of

the institution in Cardiff it is the intention of the council to hold Annual Exhibitions of works of Fine Art for the reception of which Galleries will be erected, with Studios, Lecture Hall and other requisites for an Art School'.⁸

The 1884 Fine Art Exhibition, the biggest ever seen in Wales, of thousands of exhibits, paintings, sculpture, porcelain, antiquities and work by living artists, listed in a catalogue of over two hundred pages, was a financial disaster. The next year an 'annual' exhibition was held at South Wales University College, Cardiff, and being a similar failure, its huge deficit had to be underwritten by the members of the Academy who held a special general meeting at the Llandudno Junction Hotel on November 14, 1885, to consider the situation. An overdraft was arranged to deal with the debt but the artistic future remained most uncertain. In the interest of the Cardiff Scheme more modest proposals had been set aside. Two wealthy members with dilettante and philanthropic aspirations, the brothers Sir Cuthbert and J.R.G. Grundy, offered financial support, but it was refused. (Perhaps they still wished to consider Cardiff – later, in 1911,

they built the Grundy Art Gallery in Blackpool). There was an offer to provide a gallery in Rhyl, tentative discussion of a move to Bangor and even a proposal to use Conwy Castle.

What lay at the root of the uncertainty was summed up by Thomas in a simple statement 'An artist may be known in the North of Wales and little known in South Wales, the contrary also happening'.⁹ He went on to discuss the academy's membership. 'It will be found that they range under four heads, first, a few members who from residence or other reasons may be supposed to support the Cardiff Scheme, second, Artists of Welsh birth or long residence, third, Artists whose works have been almost exclusively representations of the landscape or life of Wales, fourth, English artists of distinct skill whose sympathies have led them to apply for membership. Counting the (first) three classes together I believe that they number three fourths of the recently elected. . . the large majority . . . are Welsh and among the minority are to be found some of our best-known delineators of Welsh scenery living'.¹⁰ Reading between the lines one can guess at the differences of opinion among the

members as to where the Academy should have its headquarters. But circumstance and not policy determined the issue when Lord Mostyn, local landowner and developer of Llandudno, offered the lease of 'Plas Mawr' a large Elizabethan town house in the centre of Conwy built in the late sixteenth century by Robert Wynne of Gwydir, but dilapidated and in part occupied by an infant school, four cottages and a stable. Five days before the academy held its first meeting there it was recorded on June 4, 1886, that 'the artists have taken possession of Plas Mawr, the time being up for the tenants to leave'.¹¹ The vicar, as Chairman of the School Managers complained that he 'had to signal up through a window the way anyone has to do since the artists have had possession of Plas Mawr'.¹²

The school was finally transferred in November, 1887, in which year the fifth annual exhibition, the first in Plas Mawr, gave pride of place to Leighton's 'Cimabue's Madonna carried through Florence' loaned by Queen Victoria, a portrait of a Mr. Lowenstam by Alma-Tadema and Millais' 'Blind Girl'. The Pre-Raphaelites had supporters among the

Celfyddyd yn y Dywysogaeth'.⁶ Erbyn hynny, yr oedd pedwar arlunydd o fri, sef Leighton, Stacy Marks, Millais ac Alma-Tadema, yn aelodau anrhyddedus.

Ysgrifennodd aelod o'r Academi, T H Thomas, ynglŷn â'r ail arddangosfa a gynhaliwyd yn Oriel yr Arcêd, Y Rhyl ym 1883, 'dengys un cipolwg ar y catalog i'r fath raddau yr aethpwyd ati i ddarlunio golygfeydd Cymreig, a hynny i raddau helaeth oherwydd y gefnogaeth a ddeilliodd o sefydlu Academi. . . O gyfanswm o 293 o weithiau o bob ffynhonnell, arddangoswyd 91 golygfa yng Nghymru gan aelodau ac aelodau cysylltiedig, sef rhyw ddau ddarlun yr un, a hynny heb gyfrif astudiaethau o olygfeydd di-enw, y rheini, lawer ohonynt, yn fannau yng Nghymru. Dengys y ffaith syml hon awydd nid bychan ar ran yr arlunwyr i nodweddu eu diddordebau Cymreig'.⁷

Yr oedd hi'n amlwg y golygai unrhyw honiad pellach ar ran yr Academi ei bod yn cynrychioli celfyddyd Cymru yn ei chrynswth y byddai'n rhaid iddi hi ehangu y tu hwnt i gyfyngiadau dyffrynoedd mynyddig y Gogledd, a sefydlu pencadlys parhaol hefyd. Trodd

llygaid y cyngor, yn naturiol, tuag at y brifddinas ac mewn cyfarfod yn Neuadd y Dref, Caerdydd ar Fehefin 26, 1883, sefydlwyd Pwyllgor Cynllun Caerdydd a drefnodd Arddangosfa Gelfyddyd Gain 1884. Fel yr ysgrifennodd Thomas, mewn ysbryd optimistaidd a brofwyd yn ddisail yn y man, 'Pan leolir y sefydliad yng Nghaerdydd bwriada'r Cyngor gynnal Arddangosfeydd Blynnyddol o weithiau Celfyddyd Gain yr adeiledir Oriolau ar eu cyfer, ynghyd â Stiwdios, Neuadd Ddarlithio a phob peth arall angenrheidiol ar gyfer Ysgol Gelf'.⁸

Yr oedd Arddangosfa Celfyddyd Gain 1884, y mwyafrif o aelodau yng Nghymru gyda'i miloedd o arddangosebau, peintiadau, cerfluniau, porslen, henebion a gwaith gan arlunwyr cyfoes wedi eu rhestru mewn catalog mwy na dau gan tudalen o hyd, yn drychineb ariannol. Y flwyddyn ganlynol, cynhaliwyd arddangosfa 'flynyddol' yng Ngholeg Prifysgol De Cymru, Caerdydd, a phan fu honno'n fethiant hefyd, bu'n rhaid i aelodau'r Academi

dansgrifennu'r golled enfawr, a chynhaliwyd cyfarfod cyffredinol arbennig yng Ngwesty Cyffordd Llandudno ar Dachwedd 14, 1885 i ystyried y sefyllfa. Trefnwyd gorddrafft i gwrdd â'r ddyled, ond yr oedd y dyfodol artistig yn dal i fod yn ansicr dros ben. Cynigiodd dau aelod cefnog dilettante a dyngarol eu tueddfryd, y brodyr Syr Cuthbert a J R G Grundy, gefnogaeth ariannol ond gwrthodwyd hynny. (Dichon eu bod hwy am ddal i ystyried Caerdydd – yn ddiweddararch, ym 1911, adeilasant Oriel Gelf Grundy yn Blackpool) Cafwyd cynnig i ddarparu oriel yn y Rhyl, trafodaeth betrusgar ynglŷn â symud i Fangor a hyd yn oed un cynnig o blaid defnyddio Castell Conwy.

Crynodd Thomas beth oedd wrth wraidd yr ansicrwydd yn syml: 'Gall arlunydd fod yn adnabyddus yng Ngogledd Cymru heb i neb wybod dim amdano yn Ne Cymru, ac i'r gwrthwyneb'.⁹ Aeth ymlaen i ymdrin ag aelodaeth yr Academi. 'Ceir eu bod yn ymrannu o dan bedwar pen, yn gyntaf, nifer fechan o aelodau y gellid tybio eu bod, oherwydd eu trigfan neu am resymau eraill, yn cefnogi Cynllun Caerdydd, yn ail, Arlunwyr a

aned yng Nghymru neu sydd wedi byw yma ers tro, yn drydydd, Arlunwyr y mae eu gweithiau bron yn ddiethriad yn darlunio tirlun neu fywyd Cymru, yn bedwerydd, arlunwyr medrus o Saeson y mae eu diddordebau wedi peri iddynt wneud cais am aelodaeth. O gyfrif y tri dosbarth (cyntaf) gyda'i gilydd, credaf eu bod hwy'n ffurfio tri chwarter o'r rheini a etholwyd yn ddiweddar. . . y mae'r mwyafrif helaeth. . . yn Gymry ac ymhlith y lleiafrif ceir rhai o ddarlunwyr gorau golygfeydd Cymru sydd yn fyw heddiw'.¹⁰ Wrth ddarllen rhwng y llinellau, gellir dyfalu faint o wahaniaeth barn a oedd yn bod ymhlith yr aelodau parthed lle y dylid lleoli pencadlys yr Academi.

Ond amgylchiadau, nid polisi, ddaeth â gwaredigaeth pan gynigiodd yr Arglwydd Mostyn, tîrfeiddiannwr lleol a datblygydd Llandudno, brydles Plas Mawr, tŷ trefol Elisabethaidd helaeth yng nghanol Conwy o waith Robert Wynne, Gwydir. Cawsai ei adeiladu ym mlynnyddoedd olaf yr unfed ganrif ar bymtheg ond yr oedd bellach yn mynd â'i ben iddo ac mewn un rhan ohono ceid ysgol fabanod, pedwar bwthyn a stabl. Bum niwrnod

* gweler yr atodiad am restr o'r aelodau

Liverpool school and the 'Blind Girl', having won the Liverpool Academy Prize in 1857, was bought by Albert Woods, Mayor of Conwy, who loaned it to the Academy.

The Academy recognised the Queen's Jubilee with the presentation of two albums of watercolours by fifty-one members, the first being exclusively Welsh landscapes. 'The Queen at Buckingham Palace accepted the gift and thanked the deputation for their handsome present'.¹³ In the same year several members started 'The South Wales Art and Sketching Club' which had its first exhibition at the Public Hall, Queen Street, Cardiff in September, 1888.

The move towards stability was reflected in 'The Western Mail' on February 1, 1888. 'The annual meeting of The Royal Cambrian Academy has just been held at Plas Mawr Conway . . . in all respects the prospects of the Academy were now excellent, especially those arising from the arrangements . . . made in connection with the Academy's permanent occupation of Plas Mawr'.¹⁴

The fabric of Plas Mawr needed constant attention and during the following years there

was a thorough restoration at the Academy's expense, directed by the Secretary William L. Banks. The 'Liverpool Mercury' reported that the quaint figures which formerly adorned the walls and were almost obliterated by age (have) been almost completely restored . . . everything of antiquarian interest has been resuscitated . . . with the result that Plas Mawr is now one of the most perfect and interesting relics of Elizabethan architecture to be found in the kingdom'.¹⁵

But whatever its architectural and historical merits Plas Mawr was unsuitable as a picture gallery. In the early eighties there was a plan to celebrate the Queen's Jubilee by building an annexe but it was not finalised until a meeting of February 12 1895 decided 'that in the opinion of (the) council the Academy (should) put up a temporary building on good foundations'.¹⁶ The exhibition gallery, a wooden-framed, slate roofed, top-lit building on brick piers was completed in October of the same year and insured for £500. That it was well built has been proved by its still being in use and in sound condition in 1982. It was opened as the 'Victoria Gallery' on February

cyn i'r academi gynnal ei chyfarfod cyntaf yno, nodwyd ar Fehefin 4, 1886 fod 'yr arlunwyr wedi meddiannu Plas Mawr gan fod yr amser a roddwyd i'r tenantiaid i ymadael ar ben'.¹¹ Cwynodd y Ficer, fel Cadeirydd Rheolwyr yr Ysgol, ei fod wedi gorfod 'arwyddo i fyny drwy'r ffenestr fel y mae pawb yn gorfod gwneud er i'r artistiaid feddiannu Plas Mawr'.¹²

Symudwyd yr ysgol o'r diwedd ym mis Tachwedd 1887 a'r flwyddyn honno, rhoddwyd lle anrhydeddus yn y bumed arddangosfa flynyddol, y gyntaf i'w chynnal ym Mhlas Mawr, i ddarlun Leighton, 'Cimabue's Madonna carried through Florence' a fenthycwyd gan y Frenhines Fictoria, portread o Mr Lowenstam gan Alma-Tadema a darlun Millais, y 'Blind Girl'. Yr oedd cefnogaeth i'r Cyn-Raphaelliaid ymhlith ysgol Lerpwl, a phrynwyd y 'Blind Girl', a oedd wedi ennill Gwobr Academi Lerpwl ym 1857, gan Albert Woods, Maer Conwy, a'i rhoddodd ar fenthg y'r Academi.

Nododd yr Academi Jiwbili'r Frenhines drwy gyflwyno iddi ddwy gyfrol o ddarluniau dyfrlliw gan hanner cant ac un o'r aelodau;

casgliad o dirluniau Cymreig oedd y gyfrol gyntaf. 'Derbyniodd y Frenhines ym Mhalas Buckingham yr anrheg a diolchodd i'r ddirprwyaeth am eu rhodd hardd'.¹³ Y flwyddyn honno hefyd cychwynnodd nifer o'r aelodau 'Glwb Celfyddyd a Braslunio De Cymru' a gynhaliodd ei arddangosfa gyntaf yn y Neuadd Gyhoeddus, Stryd y Frenhines, Caerdydd ym mis Medi, 1888.

Adlewyrchwyd y duedd tuag at sefydlogrwydd yn y Western Mail ar Chwefror 1, 1888. 'Y mae'r Academi Frenhinol Gymreig newydd gynnal ei chyfarfod blynyddol ym Mhlas Mawr, Conwy . . . ym mhob agwedd, yr oedd y rhagolygon ar gyfer yr Academi bellach yn ardderchog, yn enwedig y rheini sy'n deillio o'r trefniadau . . . a wnaethpwyd ynglŷn â lleoli'r Academi yn barhaol ym Mhlas Mawr'.¹⁴

Yr oedd angen sylw beunyddiol ar adeiladwaith Plas Mawr ac yn ystod y blynyddoedd nesaf adferwyd y lle'n llwyr ar draul yr Academi, o dan gyfarwyddyd yr Ysgrifennydd, William L. Banks. Yn ôl adroddiad y Liverpool Mercury yr oedd 'y ffigurau ysmala a arferai addurno'r muriau, ac a oedd bron â'u dileu'n llwyr gan henaint, wedi

11, 1896, with a grand fancy-dress ball.

Opening Days then were events of formal dignity when distinguished visitors were treated to lavish banquets and responded with conventional blandishments. Sir Frank Dicksee, President of The Royal Academy, opened the forty-fourth exhibition in 1926 with warm approval of what he saw and in 1931 Sir Goscombe John congratulated the council on 'steering clear of modern art'!

The much-improved hanging space provided by the Victoria Gallery resulted in bigger exhibitions with as many as five hundred items, including submissions by non-members, crowded together. The inevitably anomalous standards prompted one journalist to observe that 'it appears to be more difficult for a camel to pass through the eye of a needle than for a submitted object to fail the Cambrian Academy's Selection committee'.¹⁷ Whatever was hung must have satisfied an academic canon for the Liverpool Daily Post commented wryly 'Nothing freakishly modern ever finds its way into the annual exhibitions of The Royal Cambrian Academy. No doubt if it did it would disturb the sweet Elizabethan serenity of Plas

eu hadfer bron yn llwyr . . . atgyfodwyd popeth o ddiddordeb hanesyddol . . . o ganlyniad, Plas Mawr erbyn hyn yw un o'r enghreifftiau perfffeithiaf a mwyaf diddorol o bensaernïaeth Elisabethaidd sydd i'w gweld yn y deyrnas'.¹⁵

Ond er gwaethaf ei ragoriaethau pensaernïol a hanesyddol, nid oedd Plas Mawr yn addas fel oriel ddarluniau. Yn yr wythdegau cynnar, yr oedd cynllun ar y gweill i ddathlu Jiwbili'r Frenhines drwy adeiladu atoty, ond ni chadarnhawyd hynny'n derfynol hyd oni phenderfynodd cyfarfod ar Chwefror 12, 1895 'y dylai'r Academi, ym marn y cyngor, godi adeilad dros dro ar sylfeini da'.¹⁶ Cwblhawyd yr oriel arddangos, adeilad â ffrâm bren a tho llechi, wedi ei oleuo oddi uchod ac yn sefyll ar bileri priddfaen y mis Hydref hwnnw, ac fe'i yswiriwyd am £500. Tystir i ragoriaeth yr adeiladwaith gan y ffaith fod yr oriel hon yn dal i gael ei defnyddio ym 1982 a'i bod mewn cyflwr da o hyd. Agorwyd 'Oriol Fictoria' ar Chwefror 11, 1896 gyda dawns wisg-ffansi fawreddog.

Yr oedd Dyddiau Agor arddangosfeydd yn achlysuron ffurfiol ac urddasol pan groesewid ymwelwyr o fri i wleddoedd amheuthun, a

Mawr. Who could imagine cubists in the 'Still Room' or vorticists in the 'Queen's Bedchamber?'¹⁸

Although its aesthetic judgements were not adventurous the academy's organising ability was considerable. The first President, Henry Clarence Whaite, was a man of enthusiasm and energy who had trained in Manchester and at the Royal Academy Schools, spent a year in Italy, exhibited widely and was President of the Manchester Academy of Fine Arts. When he died in 1912 it was as though its second phase – one of deliberate entrenchment – had ended, having followed a first during which the Academy's high aspirations had been subjected to unsympathetic reality.

The next President was Sir Cuthbert Grundy who, among his wide ranging interests, remained preoccupied with 'Cardiff' throughout his long period in office. Having commissioned a commemorative medallion for the Academy's 1932 Jubilee for presentation to all his fellow members, he retired two years later to make way for Augustus John whom he had persuaded to accept membership in the belief that 'the Welsh people would show a

byddent hwythau'n ymateb â'r weniaith gonfensiynol. Agorodd Syr Frank Dicksee, Llywydd yr Academi Frenhinol, y pedwerydd arddangosfa a deugain ym 1926 gan ganmol yn wresog yr hyn a welai, ac ym 1931 llonyfarchodd Syr Goscombe John y cyngor ar 'osgoi celfyddyd fodern'!

O ganlyniad i'r gofod arddangos llawer gwell a gynigid gan Oriol Fictoria, cynhaliwyd arddangosfeydd mwy o faint gyda chymaint â phum cant o arddangosebau, yn cynnwys gwaith arlunwyr nad oeddynt yn aelodau, wedi eu hel ynghyd. Ysgogodd y safonau a oedd, o reidrydd, yn amrywiol un newyddiadurwr i nodi yr 'ymddengys yn anos i gamel fyned trwy grai y nodwydd ddur nag i wrthrych a gynigir i'w arddangos fethu ger bron Pwyllgor Dethol yr Academi Gymreig'.¹⁷ Rhaid fod popeth a grogwyd wedi bodloni meini prawf yr academi ei hun oblegid nododd y Liverpool Daily Post yn goeglyd, 'Ni chaiff unrhyw beth penwan o fodern bythleyn arddangosfeydd blynyddol yr Academi Frenhinol Gymreig. Pe cai, diau y byddai hynny'n tarfu ar heddwch Elisabethaidd mwyn Plas Mawr. Pwy allai ddychmygu ciwbwyr yn yr "Ystafell Lonydd"

